# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Eifion Wyn

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Eifion Wyn yn gymuned gefnogol a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais cadarn ar les a chynnydd disgyblion. Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir, sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu priodol mewn amgylcheddau dysgu difyr a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu'n fwriadus at ymddygiad cadarnhaol a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae gweledigaeth bwrpasol y pennaeth dros dro, sy'n cynnwys cyfraniadau ystyrlon gan y staff a'r gymuned ehangach, yn cefnogi arferion gwella'r ysgol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r rolau arweinyddiaeth yn sefydledig nac yn gynaledig ar draws yr ysgol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n frwd. Maent yn fodelau iaith cywrain ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar hyrwyddo gofal a dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn arwain at gynnydd da ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion gan ystyried eu mannau cychwyn. Mae'r staff yn cydweithio'n ddiwyd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda, sy'n cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu sesiynau sy'n ysgogi disgyblion yn effeithiol ac yn eu galluogi i wneud cynnydd priodol. Er hyn, nid yw ansawdd addysgu'r athrawon a'r her maent yn ei rhoi i ddisgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Mae staff yn caniatáu i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol nad ydynt yn mynd i'r afael â'r camau nesaf yn eu dysgu yn bwrpasol, ac mae hyn yn llesteirio eu cynnydd. Yn ogystal, nid yw adborth athrawon yn herio disgyblion i wellau eu gwaith yn ddigon cyson. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ymestynnol i gymhwyso'u medrau ar lefelau dysgu priodol ar draws y cwricwlwm.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau'n llwyddiannus, sy'n datblygu eu parch at bobl eraill yn ddeallus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol buddiol, sy'n creu ymwybyddiaeth dda o'u cynefin a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1. Sicrhau rolau arweinyddiaeth sefydledig a chynaledig ar draws yr ysgol

A2. Cysoni'r arferion addysgu effeithiol a darparu adborth buddiol i herio dysgu yr holl ddisgyblion

A3. Darparu gweithgareddau bwriadus sy'n cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ar lefelau priodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2025